Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

propertymark

# Os ydych yn prynu eiddo yng Nghymru, gwiriwch a oes angen i chi dalu Treth Trafodiadau Tir

## Beth yw Treth Trafodiadau Tir?

Disodlodd y Dreth Trafodiadau Tir Dreth Tir y Dreth Stamp yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Rydych yn talu Treth Trafodiadau Tir pan fyddwch yn prynu eiddo neu dir dros bris penodol yng Nghymru. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu ac yn rheoli Treth Trafodiadau Tir ar ran Llywodraeth Cymru.

## Gwiriwch faint o dreth sydd angen i chi ei thalu

Mae'n bwysig gwirio faint o dreth y gallai fod angen i chi ei thalu cyn gynted â phosibl. Er enghraifft, gall y swm y byddwch chi'n ei dalu fod yn wahanol os fyddwch chi'n prynu:

- eiddo pan fyddwch eisoes yn berchen eiddo
- mwy nag un eiddo
- eiddo amhreswyl

Llywodraeth Cymru sy'n gosod cyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir. Gall faint o dreth y byddwch yn ei thalu yng Nghymru fod yn wahanol i faint o dreth y byddech chi'n ei thalu mewn mannau eraill yn y DU.

## Sut alla i weithio allan faint o dreth sydd angen i mi ei thalu?

Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell Treth Trafodiadau Tir ar wefan Awdurdod Cyllid Cymru i'ch helpu i weithio allan faint y gallai fod angen i chi ei dalu:

**llyw.cymru/cyfrifiannell-treth-trafodiadau-tir**

**Am fwy o wybodaeth** Ewch i: **llyw.cymru/ACC** neu ffoniwch Awdurdod Cyllid Cymru ar: **03000 254 000**